

# Gwers 6 – Y Baban Isaac

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Genesis 15:4–5, 18:1–15; 21:1–3

**G** yda dyfodiad Abram i'r llwyfan, gwelwn newid cyfeiriad yn yr ystyr fod Duw wedi penderfynu gweithredu trwy un dyn. Byddai'r addewid a roes i Abram yn dychwelyd yr holl greadigaeth yn ôl at Dduw. Addawyd i Abram y byddai'n dad cenedl fawr a nerthol, ond, yn fwy na hynny hyd yn oed, byddai'r byd i gyd yn cael ei fendithio trwy'r genedl honno. Trwy Abram a'i ddisgynyddion byddai addewidion Duw'n dod yn eiddo i bob cenhedlaeth.

Byddai Abram yn dod yn Abraham a hanes ei deulu ef yn ffurfio'r thema sy'n rhedeg trwy ac yn sail i'r rhan fwyaf o'r Hen Destament. Dechreuir edrych ymlaen, tuag at gyflawniad addewidion Duw ynghyd â chynllun newydd o'i eiddo. Yn ei ymwneud ag Abraham y mae Duw'n datguddio mwy ohono'i hun a'i natur. Y mae, er hynny, rhyw ddirgelion yn y cyfarfodydd rhyngddynt; y mae llawer na wyddai'r patriarchiaid am Dduw, neu nad oedd ef yn ei ddatguddio iddynt.

Ym mhennod 15, y mae Abram yn meddwl tybed beth oedd yn digwydd i'r addewid a gafodd gan Dduw. Sut fyddai'n bosibl iddo ef fod yn dad i genedl ac yntau'n ddi-blant ac yn 75 oed? Rhydd Duw ddarlun o'r dyfodol i Abram. Byddai ei bobl yn cael eu caethiwo, eu rhyddhau o'r gaethglud ac, maes o law, yn cyrraedd Gwlad yr Addewid. Dangosodd Duw y sêr i Abram a'i orchymyn i'w rhifo, pe gallai, ac meddai, "Felly y bydd dy ddisgynyddion". Ac yna, mewn breuddwyd, gwnaeth gyfamod ag ef, 'I'th ddisgynyddion di y rhoddaf y wlad hon' (Genesis 15:18).

Ailadroddir yr addewid i Abram nifer o weithiau (gweler penodau 12, 15 ac 17). Ym mhennod 17:1 (ac Abram yn 99 oed), gorchymynnir Abram, 'rhodia yn berffaith ger fy mron a bydd berffaith'. Dyma oedd cyfrifoldeb Abram o fewn y cyfamod. Yn ogystal ag ail adrodd y cyfamod (17:4) dywed Duw 'ac ni'th enwir di mwyach yn Abram, ond yn Abraham'. Nid oes ystyr gwahanol i'r naill na'r llall, ond rhywsut, mae'r enw newydd yn swnio'n fwy addas i 'dad llu o genhedloedd'. Roedd Sarai, ei wraig, i gael enw newydd hefyd, 'nid Sarai y gelwir hi, ond Sara fydd ei henw (17:15)– ystyr y ddau enw yw 'tywysoges', ond y mae'r ffurf newydd yn arwyddocáu dechrau newydd. Y mae pennod 17 yn drobwynt yn hanes Abram a'r ddynoliaeth, ond mae'n rhaid aros nes bod Abraham yn 100 oed pan anwyd iddo'r mab a addawyd iddo chwarter canrif ynghynt. Os profwyd ffydd Abraham dros chwarter canrif, roedd prawf mwy i ddod. Gofynnodd Duw iddo aberthu Isaac, ei unig fab, ar allor ym Moreia (Genesis 22). Fel prawf o ffydd, mae'n ymddangos yn greulon a dianghenraid,

## Abram (Abraham)

Yn ddisgynydd o Shem ac yn fab i Terra, daeth yn dad y genedl Hebreig a thad 'i lu o genhedloedd' (Gen. 17:5). Bu'n fyw bywyd o ffydd eithriadol ac adwaenir ef fel 'Cyfaill Duw' (2 Cron. 20:7). Adroddir hanes ei fywyd yn Genesis 1:26 – 25:10, a cheir crynodeb yn Actau 7:2–8. Ganwyd Abram yn Ur y Caldeaid, ac yno roedd yn byw gyda'i dad Tera a'i frodyr Nahor a Haran, a phriododd Sarai. Ar farwolaeth Haran symudodd gyda'i wraig, ei dad a'i nai, Lot, i Harran, ble bu farw Tera. Ar alwad Duw, ac yntau'n 75 mlwydd oed, symudodd Abram, gyda Lot, o Haran i Ganaan, gan dreulio amser yn Sichem a Bethel (Gen. 12:1–9). Oherwydd bod newyn yn y wlad symudodd drwy'r Negef i'r Aiff. Dychwelodd i Ganaan, ac ymsefydlu yn Hebron. Un nodwedd o'i ffydd fawr yw'r ffaith iddo adeiladu allor i Dduw ble bynnag yr oedd yn aros (Gen. 12:7–8).

ond mae'n werth cofio rhai nodweddion.

- Y mae'r Beibl yn galw ar ei bobl i roi Duw'n gyntaf, a'i garu ef uwchlaw popeth a phawb arall.
- Roedd aberthu plant yn rhan o arferiad y cenhedloedd eraill; rhywbeth yr oedd Duw'n ei ystyried yn ffaith. Y mae'r gorchymyn hwn i Abraham yn dangos yn glir nad yw Duw eisiau i blant gael eu haberthu.
- Adeiladwyd Teml Solomon ar Fynydd Moreia, ac yno, ganrifoedd yn ddiweddarach, byddai Duw'n gweld ei unig fab, Iesu, yn cael ei aberthu, ond yn wahanol i Abraham, ni fyddai'n atal ei law.



Siaradodd Duw gydag Abraham.  
'Dwi am i ti fynd i fyw i wlad arall.  
Byddi di'n cael teulu mawr.'  
Credodd Abraham popeth  
dywedodd Duw wrtho. Roedd  
Abraham yn ffrind i Dduw.


Lliwia'r lluniau'n ofalus cyn eu torri  
allan a'u gludo ar ddarn o gerdyn  
melyn. Fedri di ddweud hanes  
Abraham a Sarah wrth edrych ar y  
lluniau?

Diolch Dduw bod Abraham wedi dy  
gredu. Helpa ni i gredu ynot a bod  
yn ffrindiau gyda thi fel Abraham.

# Gwers 6 – Y baban Isaac

## Teulu Newydd i Abraham | Beibl Newydd y Plant tud. 28

(Genesis 18, 21)



### Gwers 6

Y Baban Isaac

#### **BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN 7 oed**

Y baban Isaac tud 30

#### **BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DROS 7 oed**

Rhodd gan Dduw tud 30

#### **BEIBL LLIW STORI DUW**

Sara'n cael mab tud 27

#### **BEIBL BACH STORI DUW**

Dechrau newydd tud 38

#### **BEIBL NEWYDD Y STORIWR**

Ffrind duw tud 16

#### **BEIBL LLIW Y PLANT**

Dau fab Abraham tud 40

#### **BEIBL NEWYDD Y PLANT**

Teulu Newydd i Abraham tud 28

#### **BEIBL BACH I BLANT**

Stori Abraham tud 28

#### **Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau**

Hanes Isaac tud 30

#### **BEIBL LLIW Y TEULU**

Yr ymwelwyr arbennig tud 31

### Amser Chwarae

Bydd angen bag bach sy'n cynnwys rhywbeth neis i bawb (grawnwin, syltanas, afal, banana, paced o greonau newydd i bawb gael eu rhannu).

Dangoswch y bag i'r plant ac esbonio bod gennych bethau neis iawn yn y bag a'ch bod yn addo rhoi rhywbeth i bawb os ydynt yn fodlon gwrandao arnoch a bod yn ufudd.

Gofynnwch i bob plentyn yn eu tro i gyflawni tasg fach syml, e.e. estyn beiro i lenwi'r gofrestr, cyfrif faint o blant sy'n bresennol, estyn hances bapur i chi, cau/agor y drws, tacluso'r llyfrau/cotiau, chwilio am y bocs creonau.

Ar ôl i bawb gael cyfle i gyflawni tasg, agorwch y bag a rhannwch y cynnwys. Gofynnwch i'r plant a oeddent yn credu y byddech yn cadw eich addewid?

### Amser Stori

Bydd angen Beibl Newydd y Plant, llun o fabi i ychwanegu i'r darlun o'r wythnos diwethaf a glud.

Dangoswch luniau Abraham a Sara i'r plant o'r wers flaenorol a'u hatgoffa o hanes Abraham yn symud o'i gartref yn ôl cyfarwyddiadau Duw. Pwysleiswch sut y bu i Dduw roi addewidion arbennig iawn i Abraham a Sara.

Darllenwch yr hanes o dudalen 28, neu'i adrodd yn eich geiriau eich hun. Gludwch lun y babi ym mreichiau Sara a dysgu'r plant sut i ddweud yr enw 'Isaac.'

Os oes gan un o'r plant fabi newydd yn y teulu beth am wahodd y rhieni i ddod â'r babi i'r ysgol Sul ac i siarad gyda'r plant am ofalu am y babi?

Atgoffwch y plant bod Duw wedi addo y byddai Abraham a Sara yn cael mab, a dyma fe – y baban Isaac!

### Crefft

Llyfr Crefft t. 31, 32

## Rhigwm

Bydd angen 5 seren – gwnaiff rhai papur y tro, neu beth am addurniadau Nadolig?

Rhowch un seren i 5 o blant a'u gwahodd i godi'r seren yn y man priodol. Atgoffwch y plant o addewidion Duw i ni – i'n cadw'n ddiogel ac i'n caru.

Un Seren ddisglair yn disgleirio fyny fry,  
Addewid Duw – cartref newydd i mi.

Dwy seren ddisglair yn disgleirio fyny fry,  
Addewid Duw – teulu mawr i mi.

Tair seren ddisglair yn disgleirio fyny fry,  
Addewid Duw – gwalad newydd i mi.

Pedair seren ddisglair yn disgleirio fyny fry,  
Addewid Duw – bendithion i'r holl fyd.

Pum seren ddisglair yn disgleirio fyny fry,  
Addewid Duw – Duw yn ffrind i mi.

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed t. 31–32

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 5: Dewis gwraig i Isaac

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 268

### Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 5: Priodas Rebecca

